



y ganolfan cynllunio iaith
welsh centre for language planning

YMCHWILYDD CYMUNEDOL : Prosiect ymchwil i ddeall agweddau ac ymddygiad rhieni a gwarcheidwaid o ran gofal ac addysg blynyddoedd cynnar

(Gwaith llawrydd dros dro gyda IAITH: y Ganolfan Cynllunio Iaith wedi ei gyllido gan Lywodraeth Cymru)

Y gwaith a'r person: cynigir cyfle cyffrous i ymgeisio i ymuno â thîm y prosiect ymchwil hwn dros gyfnod o hyd at 4 - 5 mis (i gychwyn cyn gynted a bo modd ym mis Mai 2019 a gorffen Awst neu Medi 2018). Bydd disgwyl i'r ymchwilydd cymunedol gynorthwyo gyda chasglu tystiolaeth yn un o ddeg ardal ymchwil y prosiect.

Y prosiect ymchwil: Mae Llywodraeth Cymru wedi comisiynu IAITH i gynnal ymchwil i'r rhesymau pam nad yw rhieni a gwarcheidwaid yn dewis peidio â chymryd gofal plant ffurfiol ac addysg feithrin cyfnod sylfaen y blynyddoedd cynnar. Nod yr ymchwil yw deall y rhesymau pam y mae rhieni a gwarcheidwaid yn dewis peidio â manteisio ar y gwasanaethau hyn a beth sy'n cymell rhieni a gwarcheidwaid i wneud dewisiadau ynghylch addysg a gofal blynyddoedd cynnar. Lleolir yr ymchwil mewn deg ardal ar draws Cymru. Anelir i gynnwys 10 neu ragor o rieni a gwarcheidwaid yn yr ymchwil ym mhob ardal.

Lleoliad: Bydd y prosiect yn cael ei weithredu yn y deg ardal canlynol: Arfordir Conwy (Llandudno, Bae Colwyn, Abergel) a Phenrhyndeudraeth; Arfordir Clwyd (Y Rhyl, Prestatyn); Castell-nedd Port Talbot; Caerdydd; Casnewydd; Blaenau Gwent (Merthyr); Sir Gâr; Ceredigion; Abertawe; Y Drenewydd. Disgwylir i'r ymchwilydd cymunedol weithio o adref ac o fewn un o ardaloedd ymchwil y prosiect.

Oriau: Cynigir hyd at gwerth 18 diwrnod (135 awr) o waith ym mhob ardal dros gyfnod o 4 – 5 mis yn ddibynnol ar ddyddiad cychwyn. Mae'r oriau gwaith yn gwbl hyblyg gan weddu beth sy'n gyfleus i'r ymchwilydd cymunedol a'r rhieni a gofalwyr fydd yn cyfrannu i'r ymchwil. Rhagwelir y bydd agweddau o'r gwaith yn gallu digwydd yn ystod y dydd neu hefyd gyda'r nos, ar ben wythnos ac, o bosib, yn ystod gwyliau ysgol. Gall un person ymgymryd â'r 18 diwrnod o waith ym mhob ardal. Gellir hefyd rannu'r gwaith rhwng 2 neu 3 person.

Gwneud Cais: Bydd disgwyl i bob ymgeisydd anfon CV a llythyr cais cryno sy'n nodi sut y mae'r ymgeisydd yn ateb y gofynion hanfodol, a dymunol os yn berthnasol, fel y nodir yn y fanyleb person. Ni ddylai'r llythyr cais fod yn hirach na 500 gair. Dylid anfon y CV a'r llythyr cais at post@iaith.eu erbyn 14.00, 10 Mai 2019.

Cyfweliadau: Cynhelir cyfweliadau yn swyddfa IAITH ym **Mae Colwyn ar 14 Mai 2019** a swyddfa IAITH yng **Nghastellnewydd Emlyn ar 15 Mai 2019**.

Enw Cyswilt: am fwy o fanylion cysylltwch â Rheolwr y Prosiect, Kathryn Jones ar 01745 222 053 neu 07867 420 990.

Dyletswyddau'r Swydd

Bod yn atebol i Reolwr Gyfarwyddwr IAITH, trwy'r Rheolwr Ymchwil, i gynorthwyo gyda'r gwaith maes ar gyfer prosiect ymchwil sy'n casglu tystiolaeth am agweddau ac ymddygiad rhieni a gofalwyr o ran gofal ac addysg blynyddoedd cynnar mewn 10 ardal ar draws Cymru ar ran Llywodraeth Cymru.

Bydd yr ymchwilydd cymunedol yn gyfrifol am:

- gasglu gwybodaeth am y ddarpariaeth gofal ac addysg blynyddoedd cynnar sy'n bodoli o fewn yr ardal leol
- adnabod 10 neu ragor o rieni a gwarcheidwaid gyda phlant 3-4 oed sy'n fodlon bod yn rhan o'r prosiect ymchwil
- dreulio amser gyda rhieni a gwarcheidwaid i ddysgu'n anffurfiol am eu hagweddau ac ymddygiad o ran gofal ac addysg blynyddoedd cynnar
- ddefnyddio technegau ymchwil ansoddol ac ethnograffaid i gofnodi tystiolaeth am agweddau ac ymddygiad rhieni a gwarcheidwaid e.e. cwblhau ffurflen cofnodi nodiadau maes, cynnal cyfweliadau ad hoc ac anffurfiol (darperir hyfforddiant ar y technegau ymchwil hyn)
- adrodd yn ôl a chydweithio gyda'r rheolwr ymchwil wrth gynllunio'r gwaith maes

Manylion y Swydd

Teitl y swydd:

Ymchwilydd cymunedol

Oriau Gwaith:

Hyd at gwerth 18 diwrnod (135 awr) o waith dros gyfnod o 4 – 5 mis yn ddibynnol ar ddyddiad cychwyn. Mae'r oriau gwaith yn gwbl hyblyg gan weddu beth sy'n gyfleus i'r ymchwilydd cymunedol a'r rhieni a gofalwyr fydd yn cyfrannu i'r ymchwil. Rhagwelir y bydd agweddau o'r gwaith yn gallu digwydd yn ystod y dydd neu hefyd gyda'r nos, ar ben wythnos ac yn ystod gwyliau ysgol. Gall un unigolyn ymgymryd â'r 18 diwrnod o waith. Gellir hefyd rannu gwaith pob ardal rhwng 2 neu 3 person.

Cyflog:

Telir ffi ddyddiol o £100 y dydd.

Trefniadau Teithio

Telir costau teithio o 45c y filltir.

Datblygu a Hyfforddi

Bydd IAITH yn darparu hyfforddiant ar ddulliau casglu tystiolaeth ymchwil ar ddechrau'r cytundeb. Bydd rheolwr ymchwil y prosiect yn cefnogi'r ymchwilwyr cymunedol trwy gyd-gynllunio'r gwaith maes a chynnal rhai agweddau o'r ymchwil gyda rhieni a gofalwyr ar y cyd.

Manyleb Person

Sgiliau / Profiad	Hanfodol	Dymunol
Sgiliau gweinyddu a threfnu ardderchog	✓	
Y gallu i drefnu amser a gweithio'n hyblyg	✓	
Profiad a gallu i weithio gyda rhieni a gofalwyr	✓	
Personoliaeth gynnes, agored a diragfarn er mwyn gallu gweithio gyda theuluoedd o gefndiroedd ieithyddol, diwylliannol a chymdeithasol amrywiol	✓	
Profiad blaenorol o gasglu tystiolaeth, cofnodi gwybodaeth ac / neu ymchwil		✓
Sgiliau cyfathrebu yn Gymraeg ac / neu Saesneg ar lafar ac yn ysgrifenedig	✓	
Sgiliau cyfathrebu mewn ieithoedd eraill (e.e. arwyddo BSL, ieithoedd cymunedol eraill)		✓
Paroddrwydd i ddysgu'n gyflym a chyd-weithio fel aelod o dîm		✓
Gallu gweithio'n annibynnol gan ddilyn canllawiau moeseg a safoni'r gwaith tîm	✓	

Cymwysterau / Gwybodaeth	Hanfodol	Dymunol
Cymhwyster ar lefel TGAU neu uwch	✓	
Dealltwriaeth o'r maes Gofal ac Addysg Blynnyddoedd Cynnar		✓
Gwybodaeth o'r ardal ymchwil y dymunir gweithio ynddi – yn enwedig o ran rhwydweithiau rhieni a gofalwyr.		✓

Atodiad 1: Gwybodaeth am IAITH

IAITH: y ganolfan cynllunio iaith yw asiantaeth polisi a chynllunio iaith amlycaf Cymru. Ein gweledigaeth yw cynnal canolfan ragoriaeth mewn polisi a chynllunio iaith sy'n cyfrannu at hyfywedd y Gymraeg ac ieithoedd lleiafrifol a rhanbarthol eraill.

Sefydlwyd IAITH yn 1993 i gynorthwyo sefydliadau Cymru i weithredu Deddf yr Iaith Gymraeg a ddaeth i rym y flwyddyn honno. Mae swyddogaeth, gweithgaredd, maint a dylanwad y ganolfan wedi tyfu yn gyson ers hynny. Mae ein cleientiaid yn cynnwys prif gyrff cyhoeddus Cymru a sefydliadau mewn cymunedau iaith eraill ym Mhrydain ac Ewrop.

Ers Mehefin 2009 mae IAITH wedi ei chofrestru'n elusen. Amcanion elusennol y ganolfan yw:

- cynnal ymchwil a phrosiectau datblygol mewn perthynas â pholisi a chynllunio iaith,
- hyrwyddo gweithgareddau addysgiadol a hyfforddiant proffesiynol yn y maes, a
- darparu cyngor, cefnogaeth a gwasanaethau i gynorthwyo sefydliadau i ddatblygu arferion dwyieithog.

Trefnir ein gwasanaethau o fewn pum maes:

- Cynllunio iaith corfforaethol
- Ymchwil, polisi a datblygu
- Addysg a hyfforddiant
- Cynllunio iaith cymunedol
- Datblygu a rheoli prosiectau

Mae tîm craidd IAITH yn gweithio o swyddfeydd y cwmni yng Nghastellnewydd Emlyn a Bae Colwyn. At hynny, mae gan y cwmni dîm helaeth o ymgynghorwyr cysylltiol, ymgynghorwyr llawrydd a phartneriaid sy'n ein galluogi i ddiwallu gofynion cytundebau arbenigol ac amrywiol.

Gellir cael rhagor o wybodaeth am y ganolfan a'i gwaith trwy ymweld â'n gwefan ar: www.iaith.eu